



ASTUDIAETH ACHOS

**AMY LOUISE KEMSHELL, YMARFERYDD MEITHRINFA,
MEITHRINFA DDYDD WYNGARTH, CYFFORDD LLANDUDNO**

SUT WNAETHOCH CHI GYCHWYN EICH GYRFA YM MAES BLYNYDDOEDD CYNNAR A GOFAL PLANT?

Roeddwn yn awyddus i weithio mewn lleoliad blynyddoedd cynnar ers pan oeddwn yn ifanc iawn ac roedd y syniad o helpu plant i ddysgu a datblygu wedi apelio ataf erioed. Cychwynnais ar fy ngyrfa drwy wneud llawer o waith gwirfoddol mewn ysgolion a rhywfaint mewn meithrinfa ddydd, cyn cwblhau cwrs cynorthwy-ydd addysgu. Ym mis Medi 2010, dechreuais brentisiaeth yn gweithio gyda phlant ym Meithrinfa Wyngarth a'i orffen ym mis Gorffennaf 2011. Rwyf wedi cymhwyso erbyn hyn ac yn aelod staff llawn amser.

Roedd y cynllun prentisiaeth yn fanteisiol iawn i mi gan i mi ddatblygu llawer yn fy swyddogaeth. Dysgais lawer drwy weithio yn y feithrinfa bob dydd a dysgais am rôl ymarferydd meithrinfa drwy fy rheolwr ac aelodau staff eraill. Roeddwn yn mwynhau ochr ysgrifenedig y brentisiaeth hefyd, gan ymchwilio i bethau newydd a datblygu fy ngwybodaeth ym maes gofal plant ymhellach.

BETH YW CYFRIFOLDEBAU'CH SWYDD?

Ar hyn o bryd rwy'n gweithio yn yr ystafell fabanod, yn gofalu am hyd at naw o fabanod rhwng 6 a 24 mis oed bob dydd. Mae fy mhrif ddyletswyddau'n cynnwys:

- Arsylwi ar blant a chynllunio gweithgareddau er mwyn diwallu anghenion datblygu pob plentyn;
- Sicrhau y cynhelir asesiad risg cyn cynnal unrhyw weithgareddau;
- Creu awyrgylch cartrefol ar gyfer y babanod drwy ddilyn patrymau dyddiol a ddarparwyd gan y rhieni; a
- Darparu llyfrau cyfathrebu i'r rhieni a chyfathrebu â nhw ar lafar ynglŷn â chynnydd eu plentyn gydol y diwrnod.

Mae dyletswyddau eraill yn cynnwys bwydo, bwydo â photel, newid cewynnau, sicrhau bod teganau'n cael eu cadw'n lân, chwarae gyda'r plant, darllen storïau a chanu caneuon gydol y dydd a darparu awyrgylch hapus ac ysgogol ar gyfer y plant. Rwy'n cyfrannu at gynllun gweithredol y cwmni hefyd. Mae fy rôl yn cynnwys trefnu digwyddiadau fel 'Toddle Waddle' (gweithgaredd noddedig i blant ifanc a'u rhieni) ac 'Operation Christmas Child'. Ar hyn o bryd, rwy'n cyfeillio dwy o hyfforddeion sydd wrthi'n gwneud eu prentisiaeth. Mae'r rôl hon yn cynnwys eu helpu i ymgartrefu, egluro patrymau dyddiol y feithrinfa iddynt, a'u helpu gydag unrhyw broblemau a allai fod ganddynt. Rwy'n cynnal cyfarfodydd hanner awr gyda'r hyfforddeion hefyd unwaith y mis er mwyn gweld sut mae prentisiaeth y ddwy yn dod yn ei blaen.

PA HYFFORDDIANT YDYCH CHI WEDI EI GAEL?

Yn ystod fy nghyfnod yn Wyngarth, rwyf wedi cyflawni rhaglen ymsefydlu, CCLD lefel 2, hyfforddiant cymorth cyntaf pediatrig a diogelwch tân. Yn ystod y mis nesaf, byddaf yn mynychu cyrsiau amddiffyn plant, codi a chario ac asesu risg. Rwy'n gobeithio datblygu i lefel 3 cyn gynted â phosibl a hoffwn gael cychwyn y cwrs yn fuan.

PAM RWY'N MWYNHAU FY SWYDD:

“Rwy'n mwynhau fy swydd fel ymarferydd meithrinfa yn fawr iawn. Rwy'n mwynhau gwyllo'r plant yn tyfu a dysgu. Diolch i'r plant, mae pob diwrnod yn gyffrous ac yn wahanol i'w gilydd. Rwy'n edrych ymlaen at fynd i'r gwaith bob bore a helpu'r plant i fwynhau eu diwrnod, drwy drefnu gweithgareddau y byddant yn eu mwynhau a chreu awyrgylch hapus ar eu cyfer. Rwy'n credu bod fy swydd i yn un o'r swyddi sy'n rhoi'r boddhad mwyaf yn y byd ac rwy'n awyddus iawn i ddatblygu fy ngyrfa ymhellach yn y cwmni hwn ac ym maes blynyddoedd cynnar a gofal plant.”

Amy Louise Kemshell

